

Senedd Cymru

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Adroddiad ar bolisiau morol Llywodraeth Cymru

Chwefror 2022



www.cynulliad.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddHinsawdd](https://twitter.com/SeneddHinsawdd)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar bolisiau morol Llywodraeth Cymru

Chwefror 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



Janet Finch-Saunders AS
Ceidwadwyr Cymreig



Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	6
1. Cyflwyniad.....	9
Y cyfranwyr at waith y Pwyllgor.....	9
2. Cynllunio morol	10
Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru	10
Cyfrifoldebau y tu hwnt i 12 milltir fôr.....	11
Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd	12
Ein barn ni	13
3. Ynni Adnewyddadwy'r Môr.....	14
Ynni gwynt	14
Ystad y Goron a Chymru	15
Ynni'r llanw.....	16
Her Morlynnoedd Llanw	16
Porthladdoedd.....	17
Sgiliau	17
Ein barn ni	17
Barn leiafrifol	18
4. Cydsynio a thrwyddedu	19
Y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr (OREP)	19
Rheoli addasol	20
Symleiddio'r broses gydsynio yng Nghymru	21
Ein barn ni	22
5. Casglu tystiolaeth a bylchau mewn data.....	24
Rhannu data gan ddatblygwyr	25

Ein barn ni	26
6. Ardaloedd Morol Gwarchodedig	27
Y llanw'n troi?	27
Asesu cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig	27
Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru	28
Ardaloedd Morol Gwarchodedig lawn	29
Ein barn ni	30
7. Carbon glas	32
Project Seagrass	33
Cynllun adfer carbon glas	34
Adborth ar waith ymgysylltu diweddar â rhanddeiliaid	35
Ein barn ni	35
Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.	37
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.	38

Rhagair y Cadeirydd

Mae gan Gymru dros 2,000 km o arfordir ac mae rhywfaint ohono'n destun cenfigen i'r byd. Mae amgylchedd morol Cymru yn gartref i rai o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau mwyaf amrywiol yn Ewrop o safbwynt biolegol.

Mae'r arfordir hefyd yn darparu cyfleoedd ynni morol enfawr, gyda chapasiti cynhyrchu digon sylweddol i helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau datgarboneiddio. Mae potensial cyffrous ar gyfer swyddi a thwf economaidd ac i'n cymunedau arfordirol gael eu hadfywio.

Rydym yn disgwyl cynnydd yn natblygiad ynni morol dros y degawd nesaf. Rydym yn croesawu hyn, ond rhaid inni sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cadwraeth a datblygu. Mae arnom angen system gyfannol sy'n ystyried effaith datblygiad cronrus ar yr amgylchedd morol a fydd hefyd yn dileu rhwystrau diangen i orfanteisio ar adnoddau naturiol.

Dyma'r amser i ystyried a fydd y cynlluniau a'r strategaethau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith ar hyn o bryd yn parhau i fod yn addas at y diben yng ngoleuni'r cynnydd disgwylidig o ran datblygu. Mae hon yn thema allweddol yn ein hadroddiad.

Ail thema allweddol yw pwysigrwydd mynd i'r afael â'r bylchau sylweddol yn y sylfaen dystiolaeth forol. Mae cynlluniau a strategaethau morol ond cystal â'r data sy'n sail iddynt. Mae diffyg sylfaen dystiolaeth gadarn i ategu penderfyniadau datblygu yn golygu bod risgiau cynhenid o ran cynyddu datblygiad. Mae'n rhaid ymateb i hyn.

Mae rhan olaf ein hadroddiad yn ymdrin â charbon glas ac yn trafod gwaith diweddar yn y maes polisi hwn. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed bod Cymru ar flaen y gad o ran datblygiadau. Gallai dal a storio carbon gan gynefinoedd fel morwellt gael effaith sylweddol ar flaenoriaethau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru a'n barn ni yw bod angen ei archwilio ymhellach.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer tymor y Chweched Senedd, bydd polisiau morol yn chwarae rhan ganolog yn ein rhaglen waith. Rwy'n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad hwn ac edrychaf ymlaen at barhau â'r gwaith hwn drwy gydol y Chweched Senedd.



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad allanol o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru i lywio ei hadolygiad ei hun yn ddiweddarach yn 2022. Tudalen 13

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan ganolog o'i hadolygiad o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Tudalen 13

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ymhen 6 mis am ei chynnydd yn gweithredu'r argymhellion yn y gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy. Tudalen 18

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'i chynlluniau, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer datganoli'r cyfrifoldeb dros reoli Ystad y Goron a'i hasedau yng Nghymru. Tudalen 18

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Cynllun Ynni Morol i adlewyrchu ei huchelgeisiau a'i bwriadau yn y maes polisi hwn. Tudalen 18

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr her morlynnoedd llanw. Tudalen 18

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd ei hadolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r broses gydsynio yn agored ac yn dryloyw, a dylai nodi sut y bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i gyfrannu. Tudalen 23

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amserlen, ar gyfer dirprwyo pwerau cynghori ar y môr o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i ysgwyddo'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn. Tudalen 23

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn cyflawni'r ymrwymiad yn y gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy i ganfod y prif fylchau mewn tystiolaeth forol a daearol ynghyd â ffyrdd o lenwi'r bylchau hyn. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut y caiff gwaith o'r fath ei ariannu. Tudalen 26

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y gall datblygwyr gyfrannu mwy at y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i gynllunio morol. Dylai nodi sut y bydd yn dileu rhwystrau i sicrhau y gellir rhannu data tra'n parchu cyfrinachedd masnachol. Tudalen 26

- Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru 2019-22, gan gynnwys unrhyw asesiad sydd wedi'i gynnal o'i heffeithiolrwydd, ac egluro a fydd y strategaeth yn cael ei hadolygu neu ei diwygio yng ngoleuni'r ymrwymiad yn y gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy.
..... Tudalen 26
- Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Dylai'r strategaeth hon ganolbwyntio ar yr angen i ddilyn dulliau lleol o weithio a dulliau o weithio sy'n edrych ar y rhwydwaith cyfan. Dylai'r strategaeth hefyd geisio cyflawni amcanion cadwraeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig unigol, lle bydd hynny'n berthnasol.
..... Tudalen 31
- Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r diffyg cynnydd o ran dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Pharthau Cadwraeth Morol a rhoi amserlen ar gyfer eu dynodi.
..... Tudalen 31
- Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd y dull newydd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i ddatblygu ar gyfer cynnal asesiadau o gyflwr safleoedd yn cael ei ariannu.
..... Tudalen 31
- Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r trafodaethau diweddaraf y mae wedi'u cynnal ynghylch gweithredu rhaglenni monitro morol yn seiliedig ar risg drwy'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig 2020-21..... Tudalen 31
- Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei chynlluniau diweddaraf ar gyfer dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig lawn. Tudalen 31
- Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu diben ac amserlen yr ymgynghoriad cyhoeddus ar garthu a threillio gwely'r môr yn Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru.
..... Tudalen 31
- Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y gall gefnogi rhagor o brosiectau i ddal a storio carbon glas yn nyfroedd Cymru. Tudalen 35
- Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Partneriaeth Tystiolaeth Carbon Glas y DU. Dylai hefyd ddarparu rhagor o wybodaeth am gynlluniau ar gyfer creu gweithgor yn y maes carbon glas yng Nghymru..... Tudalen 35

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei safbwynt ar ddatblygu Cynllun Adfer Carbon Glas Cenedlaethol i Gymru. Os yw'n credu y gellid gwneud cynnydd yn y maes polisi hwn mewn ffordd well, dylai nodi beth yw'r ffordd honno..... Tudalen 36

1. Cyflwyniad

1. Deilliodd y gwaith hwn o ymgynghoriad y Pwyllgor ar ei flaenoriaethau ar gyfer y 6ed Senedd, a gynhaliwyd yn haf 2021. Cododd sawl cyfrannwr i'r ymgynghoriad faterion yn ymwneud â pholisiau morol a phenderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i roi "ciplun" inni o'r sefyllfa, gan asesu cynnydd mewn sawl maes ar draws polisi morol.

Y cyfranwyr at waith y Pwyllgor

2. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth yn canolbwyntio ar bolisiau morol ar 9 Rhagfyr 2021. Mae manylion y tystion a gymerodd ran yn y sesiwn i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ei waith.

2. Cynllunio morol

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

- 3.** Mabwysiadwyd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (y Cynllun Morol) yn 2019 ac mae'r cynllun hwn yn cyflwyno dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â datblygiadau yn yr amgylchedd morol. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hadroddiad Chwe Blynedd ar Gynnydd gyda Chynlluniau Morol yng Nghymru, a hwnnw'n rhoi sylw i'r cyfnod 2015-2021.
- 4.** Yn ôl yr Adroddiad, nid yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu diwygio'r Cynllun Morol ar hyn o bryd, a bydd unrhyw newidiadau iddo yn y dyfodol "yn seiliedig ar ganfyddiadau monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y Cynllun". Mae disgwyl cyhoeddi'r canfyddiadau hyn o fewn tair blynedd i fabwysiadu'r Cynllun Morol, ym mis Tachwedd 2022.
- 5.** Mewn llythyr at y Pwyllgor yn cyflwyno'u blaenoriaethau, dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ei bod yn hanfodol cynllunio a rheoleiddio datblygiadau newydd yn y sector morol yn effeithiol er mwyn galluogi twf cynaliadwy yn y sector morol, ac yn enwedig er mwyn datblygu prosiectau ynni'r môr i gyfrannu at gyrraedd sero net.
- 6.** Ategwyd hyn gan randdeiliaid mewn sylwadau am y Cynllun Morol. Ers mabwysiadu'r Cynllun, dywedodd sawl un, gan gynnwys Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod yr uchelgeisiau ar gyfer datblygu (yn enwedig ynni adnewyddadwy) ym moroedd Cymru wedi cynyddu'n sylweddol. Yn sgil hyn, dywedodd nifer o gyfranwyr nad oedd y Cynllun Morol yn addas at y diben yng nghyd-destun y cynnydd sylweddol a ragwelir mewn datblygiadau. Tynnodd RSPB Cymru sylw at ddiffyg elfen ofodol neu bolisiau rheoli datblygu, sy'n golygu nad yw blaengynllunio strategol wedi'i wreiddio yn y cynllun. Dywedwyd bod hyn hefyd yn golygu nad yw'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael yn rhagweithiol â gwrthdaro.
- 7.** Mewn diweddariad i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog, "Ers cyhoeddi'r Cynllun Morol, mae swyddogion wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ffordd o roi ei bolisiau ar waith ar sail gofodol, gan roi cyfeiriad a chyd-destun gofodol ar gyfer datblygiadau." Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod "wedi dechrau gweithio'n ddiweddar i fapio Ardaloedd Adnoddau Strategol (AAS) posibl i nodi a chymhwyso polisi'r Cynllun Morol ar gyfer diogelu ardaloedd lle ceir adnoddau allweddol."
- 8.** Yn ôl gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog o bolisiau ynni adnewyddadwy, bydd Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid allweddol "yn nodi 'meysydd adnoddau strategol' morol erbyn 2023 ac yn rhoi canllawiau i gyfeirio meysydd priodol ac amhriodol ar gyfer datblygu gwahanol dechnolegau ynni adnewyddadwy."

9. Galwodd rhanddeiliaid allweddol am gynllun gofodol statudol, traws-sector i ymdrin ag effeithiau cronol datblygiadau morol. Dywedodd Clare Trotman y dylai'r Cynllun Morol adlewyrchu'n well ddealltwriaeth pobl o effeithiau cronol yr holl bethau rydym am eu gweld yn ein moroedd. Dywedodd fod angen deall y ffordd orau i wneud hyn yn ofodol, ynghyd â deall beth all ddigwydd a beth na all ddigwydd, ble mae'n briodol gosod pethau a ble nad yw'n briodol gosod pethau. Dywedodd Emily Williams fod cynllunio gofodol morol yn hollbwysig o safbwynt cynaliadwyedd a chadwraeth ond y byddai hefyd yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr. Er y cydnabuwyd bod y "Canllawiau Lleoliadol ar gyfer Sectorau" wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i alluogi dull gofodol o weithio, teimlai rhanddeiliaid nad oedd hyn yn ddigonol gan nad yw effeithiau cronol yn cael eu hystyried.

10. Dywedodd Jess Hooper a David Jones ill dau y byddai sector ynni adnewyddadwy'r môr yn croesawu dull mwy gofodol o gynllunio morol pe bai'n rhoi mwy o sicrwydd. Pwysleisiodd David Jones fod angen rhywfaint o sicrwydd ar y sector o ran llunio polisiau. Yn ymarferol, dywedodd y gallai newid y dull yn sylfaenol arwain at oedi pellach, diangen wrth geisio datblygu. Pwysleisiodd Jess Hooper bwysigrwydd sicrhau mai dyma'r degawd ar gyfer cyflawni a chyflwyno cynllun neu bolisi newydd y gellid ei gefnogi – un sy'n mynd i gymryd ychydig o amser i'w roi ar waith.

11. Yn ôl Emily Williams, bydd adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Morol, sydd i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022, yn gyfle i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynllunio morol. Awgrymodd y dylid cynnal adolygiad annibynnol ymlaen llaw er mwyn llywio ystyriaethau Llywodraeth Cymru.

Cyfrifoldebau y tu hwnt i 12 milltir fôr

12. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gadwraeth natur ledled parth Cymru h.y. hyd at 200 milltir fôr neu'r llin ganol. Fodd bynnag, mae nifer o'r allbynnau sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, fel yr adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Datganiad Ardal Morol, yn berthnasol i ddyfroedd y glannau'n unig, h.y. o'r lan hyd at 12 milltir fôr. Ac ystyried y diddordeb mewn datblygu ynni adnewyddadwy ar y môr yn benodol, dywedodd Emily Williams ei bod yn bwysig bod yr allbynnau hyn yn berthnasol i holl barth Cymru.

13. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod egwyddorion a diben rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi'u gwreiddio yn y Cynllun Morol, ac mai'r fframwaith polisi hwnnw sy'n gosod y fframwaith ar gyfer pob penderfyniad am bob datblygiad a geir drwy holl barth Cymru. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyderus y gellir bodloni gofynion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy drwy'r holl fframweithiau gwahanol hynny, a bod hynny'n digwydd. Casgliad Cyfoeth Naturiol Cymru oedd

nad oedd rheswm i bryderu nad yw'r gwaith rheoli ehangach, cynaliadwy hwnnw'n digwydd yn ardal y môr mawr yn ogystal ag yn ardal y glannau.

14. Eglurodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod rhai pethau y mae'n eu gwneud y tu hwnt i 12 milltir fôr, fel trwyddedu morol, er enghraifft. Y tu hwnt i 12 milltir fôr, ceir y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, sef y corff cadwraeth natur statudol sy'n cyfateb i Cyfoeth Naturiol Cymru ar y môr.

15. Roedd argymhellion gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog ym maes ynni adnewyddadwy yn cynnwys ymrwymiad i:

"symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy'r Môr Celtaidd gan gynnwys dirprwyo pwerau cynghori ar y môr gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) i CNC."

16. Pwysleisiodd rhanddeiliaid amgylcheddol y dylai capasiti staffio Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn destun pryder, oherwydd bod y gofynion i ymdrin â materion ynni adnewyddadwy'r môr ar lefel ddigynsail.

17. Credai rhai rhanddeiliaid fod diffyg adnoddau yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn broblem sylweddol. Er bod y ffocws yn aml ar allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio, roedd y diffyg adnoddau yn effeithio'n ddifrifol ar ei allu i gyflawni ei gyfrifoldebau cynghori hefyd.

18. Cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai angen adnoddau staffio ychwanegol pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i ymestyn ei gyfrifoldebau i gwmpasu 200 milltir fôr.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd

19. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod nifer o wahanol grwpiau rhanddeiliaid yn bodoli ar draws meysydd polisi morol, a bod rhai yn fwy gweithgar nag eraill. Cytunai rhanddeiliaid amgylcheddol fod y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid cynllunio morol wedi ymgysylltu'n dda. Dywedodd Emily Williams fod ansawdd y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn amrywio ar draws y gwahanol fforymau ac awgrymodd fod fforymau rhanddeiliaid sy'n canolbwyntio ar dasgau penodol yn gweithio'n fwy effeithiol ac y gallent eistedd o dan y fforymau mwy strategol.

20. Derbyniwyd ei bod yn aml yn anodd cynnwys y cyhoedd mewn materion cynllunio strategol ac nad yw polisi morol yn eithriad. Dywedodd rhanddeiliaid amgylcheddol eu bod eisoes yn gwneud gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ond bod rôl i Lywodraeth Cymru yn hyn o beth hefyd. Dywedodd Clare Trotman fod Llywodraeth Cymru wedi trefnu sawl sesiwn galw heibio ranbarthol cyn cyhoeddi'r Cynllun Morol a bod hwn yn fodel da i'w ddefnyddio er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn gyson.

Ein barn ni

Mae disgwyl i ddatblygiadau ynni'r môr gynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rydym yn croesawu hyn, yn enwedig gan y bydd datblygiadau o'r fath yn cyfrannu'n sylweddol at gyrraedd sero net. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig sicrhau ein bod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cadwraeth a datblygu. Mae arnom angen system gyfannol sy'n ystyried effaith datblygiad cronol ar yr amgylchedd morol tra'n dileu rhwystrau diangen i ymelwa ar adnoddau naturiol. I fod yn glir, nid ydym yn awgrymu mynd yn ôl i'r cychwyn fan hyn. Nid oes unrhyw gyfrannwr at waith y Pwyllgor wedi galw am hyn a chydabuwyd bod angen gwneud cynnydd. Ond nawr yw'r amser i ystyried a fydd y cynlluniau a'r strategaethau sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn parhau i fod yn addas i'r diben yng ngoleuni'r cynnydd disgwyliedig mewn datblygiadau.

Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru adolygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru cyn diwedd 2022. Cyflwynodd rhanddeiliaid ddadl gref y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad allanol cychwynnol o'r Cynllun, i lywio'r gwaith. Rydym yn cytuno y byddai hwn yn ddull adeiladol o fwrw ati.

Cafwyd beirniadaeth hallt gan rhanddeiliaid amgylcheddol ar sawl agwedd ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, yn enwedig y diffyg dull gofodol. Fodd bynnag, nodwn y sylwadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch mabwysiadu dull mwy gofodol, gan gynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol. Dylid ystyried y rhain, a materion cysylltiedig eraill, fel rhan o'r adolygiad allanol cychwynnol.

Credwn y dylai fod pwyslais cryf ar ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llywio adolygiad Llywodraeth Cymru o'i Chynllun Morol.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad allanol o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru i lywio ei hadolygiad ei hun yn ddiweddarach yn 2022.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan ganolog o'i hadolygiad o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

3. Ynni Adnewyddadwy'r Môr

21. Mae cynyddu'r ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu yn bwysicach nag erioed os yw Cymru i gyrraedd ei tharged o sero net erbyn 2050. Cyhoeddwyd Cynllun Ynni Morol Llywodraeth Cymru yn 2016 ac mae hwnnw'n dweud bod Cymru mewn sefyllfa dda i arwain yn fyd-eang ym maes ynni'r môr, a hithau â 1,200km o arfordir a photensial capasiti i gynhyrchu 6GW o ynni tonnau a ffrwd lanw.

22. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi arloesi ym maes technoleg ynni adnewyddadwy newydd. Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog bod gwaith ar y gweill ers 2019 i ysgogi cynhyrchu ynni ffrwd lanw adnewyddadwy yn y moroedd o amgylch Cymru ac i helpu i gefnogi cynhyrchu mathau eraill o ynni o'r môr.

23. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad ar ei gwaith dadansoddi manwl ar y rhwystrau i ddatblygu ynni adnewyddadwy. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy'r môr.

Ynni gwynt

24. Mae ynni gwynt ar y môr yn defnyddio technoleg ynni adnewyddadwy sydd wedi ennill ei phlwyf ac wedi profi'i llwyddiant. Mae tair fferm wynt weithredol ar y môr oddi ar arfordir y gogledd. Mae'r un fwyaf, Gwynt y Môr, yn fferm wynt 576MW ar y môr. Mae'n sefydlog ar ei gwaelod ac yn gorchuddio tua 79km². Gall gynhyrchu digon o ynni glân i bweru 400,000 o aelwydydd, sy'n cyfateb i gwtogi 1.7 miliwn tonnell y flwyddyn o allyriadau CO₂.

25. Mae'r pwyslais wedi troi yn ddiweddar at dechnolegau gwynt ar y môr sy'n arnofio, a'r rheini'n defnyddio'r dechnoleg blatfform a ddefnyddir yn y diwydiant olew a nwy. Mae hyn yn golygu y gellir lleoli tyrbinau gwynt ymhellach o'r arfordir, gyda llai o effaith weledol.

26. Ystad y Goron sy'n rhoi'r hawliau i ddefnyddio gwely'r môr trwy broses brydlesu. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod angen i Ystad y Goron sicrhau bod digon o brydlesi gwely'r môr ar gael yn nyfroedd Cymru. Ar hyn o bryd, mae Ystad y Goron yn darparu mecanwaith prydlesu ar gyfer 100MW, ac mae Blue Gem Wind wedi ddefnyddio hwn ar gyfer ei safle cyntaf, sef prosiect arddangos gwynt arnofiol cyntaf Cymru, Erebus. Mae Ystad y Goron wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer prydlesu ynni gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd, gydag uchelgais i ddatgloi hyd at 4GW o gapasiti ynni glân a darparu pŵer glân i bron i bedair miliwn o gartrefi.

27. Esboniodd David Jones fod llwyddiant prosiectau yn y Môr Celtaidd wedi'i seilio ar ddull cam wrth gam o weithio, lle bydd modd i brosiectau a'r cadwyni cyflenwi cysylltiedig gynyddu'n

raddol mewn maint, gan ddechrau ar ~100MW, symud i ~300MW, cyn dechrau prosiectau masnachol ar raddfa lawn. Pan fydd y fframwaith prydlesu masnachol cynnar hwn yn gyflawn, dywedodd David Jones y dylid bwrw ymlaen cyn gynted â phosibl â phroses brydlesu ynni gwynt arnofiol ar raddfa fasnachol. Fel arall, dywedodd y byddai Cymru dan anfantais o'i chymharu â'r Alban, sydd eisoes â rownd brydlesu ar raddfa fasnachol ar gyfer ynni gwynt arnofiol, a 2 brosiect ynni gwynt arnofiol eisoes wedi'u comisiynu'n llawn.

Ystad y Goron a Chymru

28. Ar 17 Ionawr 2022, cyhoeddodd Ystad y Goron yn yr Alban ganlyniad ei phroses gais ar gyfer "ScotWind Leasing", sef y rownd brydlesu gyntaf ar gyfer ynni gwynt ar y môr ers datganoli'r cyfrifoldeb dros reoli hawliau ynni gwynt ar y môr i'r Alban. Roedd 17 o brosiectau wedi'u dewis o ganlyniad i'r broses ymgeisio a'r rheini wedi cael cynnig cytundebau dewisol, sy'n cadw'r hawliau i ardaloedd penodol o wely'r môr. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn talu ychydig o dan £700m mewn ffioedd dewisol, a dywedodd Ystad y Goron yn yr Alban y byddai'r arian yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth yr Alban at ddibenion gwariant cyhoeddus.

29. Mae datganoli cyfrifoldebau Ystad y Goron i Lywodraeth Cymru wedi bod yn destun cryn drafod yn ddiweddar. Yn ôl y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru:

"Rydym yn cefnogi datganoli pwerau ac adnoddau pellach y mae ar Gymru eu hangen i ymateb yn fwyaf effeithiol i gyrraedd sero net, yn benodol rheolaeth dros Ystad y Goron a'i hasedau yng Nghymru."

30. Dywedodd gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog ym maes polisiau ynni adnewyddadwy:

"Wrth inni fynd ar drywydd datganoli Ystâd y Goron, byddwn yn symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy'r Môr Celtaidd gan gynnwys dirprwyo pwerau cyngori ar y môr gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) i CNC."

31. Dywedodd David Jones fod y farchnad yn barod i fuddsoddi mewn technolegau ynni gwynt arnofiol ac y byddai'n hoffi pe bai Ystad y Goron yn ymateb yn gyflymach er mwyn i hyn ddigwydd ar raddfa fwy yn nyfroedd Cymru. Wrth gyfeirio at y trefniadau datganoledig yn yr Alban, dywedodd David Jones fod canfyddiad yn y sector bod Ystad y Goron yn yr Alban yn agosach at y Llywodraeth ac o bosibl yn ymateb yn well i uchelgais y Llywodraeth yn y fan honno nag Ystad y Goron yng Nghymru a Lloegr, sy'n rhoi pwyslais ar ei hannibyniaeth fel sefydliad. Dywedodd ei fod yn credu y gallai fod manteision i Gymru o ddatganoli Ystad y Goron ond fe rybuddiodd fod angen gofalu na fyddai hyn yn arafu pethau.

32. Dywedodd Jess Hooper ein bod wedi cyrraedd pwynt lle gallem weld Ystad y Goron yn gwneud pethau ychydig yn wahanol, gan fod y rowndiau blaenorol wedi bod yn eithaf araf a beichus yn ei thyb hi. Dywedodd ein bod nawr yn clywed sôn am gamau galluogi. Ychwanegodd y gallai camau galluogi Ystad y Goron, o'u gwneud yn iawn, hwyluso'r gwaith o gynyddu'r raddfa a chyflymu'r broses, sef rhywbeth y mae datblygwyr yn dirfawr alw amdano, ac yn barod i ymateb iddo. Rhybuddiodd, serch hynny, nad oedd wedi gweld y camau hyn eto.

Ynni'r Llanw

33. Mae ynni'r llanw i'w gael mewn dwy ffurf ar hyn o bryd:

- Mae technolegau ffrwd llanw yn harneisio egni cinetig cerrynt i bweru tyrbinau; ac
- Mae technolegau amrediad llanw yn harneisio'r egni posibl a grëir gan amrediad llanw uchel, sef y gwahaniaeth rhwng llanw isel ac uchel ('pen' y dŵr).

34. Yn gyffredinol, mae prosiectau amrediad llanw yn cynnwys adeiladu morlynnoedd neu forgloddiau ar raddfa fawr sy'n dal ac yna'n rhyddhau'r llanw sy'n dod i mewn. Mae Ynni Morol Cymru wedi amcangyfrif bod 6GW o adnoddau amrediad llanw ar gael yng Nghymru.

35. Dywedodd Jess Hooper nad yw Llywodraeth Prydain wedi rhoi digon o gefnogaeth i bolisiau ar gyfer datblygiadau amrediad llanw. Dywedodd fod graddfa fawr rhai prosiectau, fel prosiect morlyn llanw'r gogledd, yn golygu nad oedd gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd yn y maes hwn. Eglurodd fod yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wedi dangos rhywfaint o ddiddordeb yn y gorffennol ond ei bod yn gofyn am gyflwyno cynlluniau cost-ffeithiol sydd wedi'u datblygu'n dda. Serch hynny, heb gefnogaeth mewn polisi, dywedodd ei bod yn amhosib cael cyllid i lunio cynnig o'r fath.

Her Morlynnoedd Llanw

36. Mae'r **Cynllun Cymru Sero Net** a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys ymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru erbyn 2024 yn:

"Datblygu Her Morlynnoedd Llanw, gan roi tystiolaeth gadarn ar ddichonoldeb y dechnoleg a'r potensial i gefnogi prosiect yn nyfroedd Cymru a all ddangos cynaliadwyedd amgylcheddol yn unol ag amcanion a pholisiau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru."

37. Dywedodd Jess Hooper fod yr her morlynnoedd llanw wedi cau a bod y sector yn aros am adborth gan Lywodraeth Cymru. Roedd hi'n deall bod mwy nag 20 o gyflwyniadau wedi'u hanfon ond nad oeddent fel sector yn gwybod sut roedd pethau'n dod yn eu blaen. Dywedodd

eu bod yn ymwybodol bod y Gweinidog yn edrych ar y mater, ond bod angen trafodaethau a chanlyniadau pellach a allai fod yn gysylltiedig â chyllideb Llywodraeth Cymru.

Porthladdoedd

38. Dywedodd Jess Hooper y byddai porthladdoedd yn faes allweddol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith er mwyn sicrhau bod y gadwyn gyflenwi yn ei lle. Yn ôl gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog ym maes ynni adnewyddadwy, bydd Llywodraeth Cymru:

"yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddod â buddsoddiad newydd i borthladdoedd yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda phorthladdoedd yng Nghymru i nodi cyfleoedd ar gyfer arbenigo a chydweithredu, ac i sicrhau bod porthladdoedd Cymru yn barod ar gyfer buddsoddiad. Rydym yn galw ar Ystâd y Goron a Llywodraeth y DU i wneud y mwyaf o werth cyfleoedd datblygu'r gadwyn gyflenwi a seilwaith yng Nghymru o'u cylchoedd prydlesu."

Sgiliau

39. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd Ynni Morol Cymru fod y sector ar hyn o bryd yn cyflogi 256 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol (gyda lluosyddion yn y gadwyn gyflenwi anuniongyrchol yn cynyddu'r nifer hwn). Dywedodd hefyd fod disgwyl i ynni gwynt arnofiol ar y môr yn unig greu 3000 o swyddi erbyn 2030 os achubir ar y cyfle i symud yn gynnar yn y maes hwn. Oherwydd yr angen a ragwelwyd am swyddi yn y sector – 70,000 erbyn 2026 i gyflawni'r rhaglen bresennol – dywedodd David Jones fod ei gwmni wedi bod yn ymwneud ag ysgolion lleol a sefydliadau addysg bellach, gan ganolbwyntio ar STEM a datblygu sgiliau. Yn ôl gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog ym maes ynni adnewyddadwy, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun gweithredu sgiliau sero net erbyn gwanwyn 2022.

Ein barn ni

Rydym yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru i gael gwared ar rwystrau i ddatblygu sector ynni adnewyddadwy'r môr yng Nghymru. Byddwn yn parhau i adolygu sut mae argymhellion gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog yn cael eu rhoi ar waith.

Cyhoeddwyd Cynllun Ynni Morol Llywodraeth Cymru yn 2016. Galwodd y rheini a gyfrannodd at ein gwaith am "fap llwybr" i ddangos bwriadau Llywodraeth Cymru dros y tymor byr a'r tymor hwy. Credwn ei bod yn fuddiol ailedrych ar y Cynllun Ynni Morol a'i ddiweddarau a byddem yn ddiolchgar am eglurhad gan y Gweinidog ynghylch ei bwriadau yn hyn o beth.

Nodwn fod y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cefnogi datganoli'r cyfrifoldeb dros reoli Ystad y Goron a'i hasedau yng Nghymru. Credwn y dylai incwm sy'n deillio o asedau morol Cymru gael ei ddychwelyd i Gymru, fel y gellir ei wario ar bolisiau cyhoeddus sy'n cefnogi dinasyddion Cymru a pholisiau sy'n helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau sero net. Dyma'r sefyllfa yn yr Alban, ac ni welwn unrhyw reswm da pam na all trefniadau tebyg fod yn berthnasol i Gymru.

Rydym yn cytuno â'r sylwadau a glywsom am bwysigrwydd rhoi rôl allweddol i borthladdoedd wrth i'r sector dyfu yng Nghymru. Hoffem gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu'r ymrwymiad yn argymhellion y gwaith dadansoddi manwl i "weithio gyda phorthladdoedd yng Nghymru i nodi cyfleoedd ar gyfer arbenigo a chydweithredu, ac i sicrhau bod porthladdoedd Cymru yn barod ar gyfer buddsoddiad."

Rydym yn nodi'r sylwadau gan y sector am y nifer posibl o swyddi y gall y sector eu creu dros y degawd nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod cymunedau lleol yn y sefyllfa orau i achub ar y cyfleoedd hyn. Rydym yn falch y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun gweithredu sgiliau sero net eleni.

Barn leiafrifol

Yn ystod trafodaeth y Pwyllgor ar ei Adroddiad, mynegodd Janet Finch Saunders wrthwynebiad i argymhelliad 4.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ymhen 6 mis am ei chynnydd yn gweithredu'r argymhellion yn y gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'i chynlluniau, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer datganoli'r cyfrifoldeb dros reoli Ystad y Goron a'i hasedau yng Nghymru.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Cynllun Ynni Morol i adlewyrchu ei huchelgeisiau a'i bwriadau yn y maes polisi hwn.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr her morlynnoedd llanw.

4. Cydsynio a thrwyddedu

40. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu sector ynni adnewyddadwy'r môr i ddatblygu'n gynaliadwy drwy ei swyddogaethau rheoleiddio a chynghori. Mae'n darparu gwasanaeth **trwyddedu morol** ar ran Gweinidogion Cymru ar gyfer **gweithgareddau y mae angen eu trwyddedu** drwy holl **Barth Cymru. Llywodraeth Cymru** yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer trwyddedu morol yng Nghymru.

41. Rhwng mis Mehefin 2020 a mis Tachwedd 2021, rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru 12 trwydded forol: "mae pum trwydded yn ymwneud â gwaith adeiladu, newid neu wella sy'n gysylltiedig â'r sector ynni adnewyddadwy, a chyhoeddwyd saith trwydded mewn perthynas â Gwaith arolygu ar safleoedd prosiect.

42. Sefydlodd **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** broses gyfreithiol ar gyfer gwneud ceisiadau am drwyddedau morol. Mae sawl darn pwysig o **ddeddfwriaeth amgylcheddol** hefyd yn berthnasol i'r broses reoleiddio. Bydd **y broses gydsynio, ynghyd â'r awdurdod cydsynio**, ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy'r môr yn nyfroedd Cymru yn amrywio yn ôl maint y prosiect a'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol.

43. Fel y dangosir ym Mhennod 1, Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r ymgynghorai statudol ar gyfer rhoi cyngor am gydsyniadau datblygu a thrwyddedau morol yn nyfroedd Cymru o fewn 12 milltir fôr. Serch hynny, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur sy'n gyfrifol am ardal y môr mawr y tu hwnt i 12 milltir fôr.

Y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr (OREP)

44. Argymhellodd gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog y dylid adolygu'r adnoddau y mae eu hangen a'r opsiynau ar gyfer prosesau cydsynio a chynghori i gyd-fynd â'r twf mewn ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cynnal adolygiad brys o'r adnoddau y mae eu hangen a'r opsiynau ar gyfer Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr Cyfoeth Naturiol Cymru.

45. Yn 2019, datblygodd Cyfoeth Naturiol Cymru y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr (OREP), gan ymateb i'r twf yn y sector ynni adnewyddadwy ar y môr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud mai nod yr OREP yw ceisio lleihau risgiau amgylcheddol a risgiau wrth gydsynio, a hynny drwy feithrin gallu ac arbenigedd i gyflawni'r canlynol:

- Rheoli achosion yn well a rhoi cyngor gwell cyn y broses o wneud cais;
- Datblygu swyddi allweddol a chanllawiau;

- Adnodd staff pwrpasol ychwanegol sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ynni adnewyddadwy'r môr – datblygu'r arbenigedd angenrheidiol a'i chynnal;
- Tystiolaeth hanfodol i leihau ansicrwydd ynghylch cydsyniadau ac i fynd i'r afael â'r gwrthdaro ymddangosiadol rhwng yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth; a
- Mwy o ymgysylltu allanol â rhanddeiliaid allweddol.

46. Drwy'r OREP, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn rhoi cyngor ar 15 o brosiectau mawr; mae'n datblygu canllawiau allweddol; ac mae'n ymwneud â chynlluniau strategol fel Rhaglen Tystiolaeth a Newid Gwynt ar y Môr Ystad y Goron, Rhaglen Ynni'r Môr Llywodraeth Cymru, a'r Her Morlynnoedd Llanw.

47. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod yr OREP yn ei ariannu'i hun dros dro, tan fis Mawrth 2022, ond y bydd swyddogaeth cynghori a rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru "yn parhau i gynyddu'n sylweddol, yn enwedig gyda'r gobaith o ffermydd gwynt alltraeth sefydlog ac arnofiol newydd a'r Her Morlyn Llanw". Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod "angen buddsoddiad parhaus a chynyddol " er mwyn ateb y galw hwn ac "i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr amgylchedd morol, er mwyn helpu i leihau'r risg amgylcheddol".

48. Awgrymodd Jess Hooper a David Jones ill dau fod diffyg adnoddau yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn golygu bod y cynnydd sy'n cael ei wneud yn arafach nag y gallai fod fel arall. Mynegodd David Jones bryder y gallai staff profiadol a gwybodus sy'n cefnogi'r OREP gael eu colli oherwydd bod cyfyngiad amser ar gyllid ar gyfer y swyddi. Byddai hyn yn golled wirioneddol ar adeg hollbwysig, a hwythau'n debygol o gael mwy o geisiadau am gydsyniadau nag erioed.

Rheoli addasol

49. Ymhlith y canllawiau a'r datganiadau sefyllfa allweddol sy'n deillio o'r OREP mae datganiad sefyllfa rheoli addasol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hwn yn disgrifio dull o fonitro'n barhaus effaith amgylcheddol y technolegau a ddefnyddir. Eglurodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gellir rhoi dyfeisiau bach yn y dŵr er mwyn monitro beth fydd yr effaith ar wahanol dderbynyddion amgylcheddol amrywiol. Mae'n ofynnol i ddatblygwyr fonitro'r effeithiau ac adrodd yn ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn ei alluogi i asesu'r effaith barhaus gan ganiatáu naill ai newidiadau yn y camau lliniaru sy'n angenrheidiol, neu, os yw'r effaith yn parhau'n fach, caniatáu i'r datblygwr gynyddu maint datblygiad.

50. Disgrifiodd Jess Hooper y dull rheoli addasol fel un llawn o gymhlethdodau ac oedi posibl. Dywedodd fod y dull yn dal i olygu ansicrwydd i fuddsoddwyr, ac y byddai hyn yn creu rhwystr.

51. Mynegodd rhanddeiliaid amgylcheddol rai amheuan ynghylch y dull. Er iddynt ddweud bod iddo ddiben wrth asesu effaith technolegau newydd, barnwyd hefyd na ddylid dibynnu arno fel prif elfen y dull monitro ac ymchwilio. Dywedodd Claire Stephenson:

"We're always going to need that adaptive management plan for novel technologies, because until they're in the water, we've only got academic responses as to what the actual impacts are. We need test centres. I'm not disputing that. I just think using that for multiple locations for multiple different technologies is a recipe for creating mass in-combination and cumulative effects."

52. Cyfeiriodd Jess Hooper yn gadarnhaol at y dull defnyddio-a-monitro yn yr Alban a oedd wedi golygu bod datblygwyr wedi gallu rhoi cyfarpar yn y dŵr yn gyflymach, monitro sut mae'r cyfarpar hwnnw'n effeithio, neu beidio, ar yr amgylchedd lleol, cyn defnyddio hynny'n sail wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol – er enghraifft, ar gyfer cyflwyno'r prosiect yn raddol fesul cam. Roedd y dull hwn wedi golygu y gellid cynyddu maint prosiectau yn raddol, yn seiliedig ar dystiolaeth. Pwysleisiodd mai'r peth pwysig oedd galluogi defnyddio'r ddyfais gyntaf honno, a pheidio â chyflwyno gofynion beichus cyn gwneud y penderfyniad hwnnw i roi'r gorau i'w ddefnyddio. Cyfeiriodd hefyd at ofynion ôl-fonitro a oedd, yn ei barn hi, yn arwyddocaol ac o bosibl yn creu rhwystrau.

Symleiddio'r broses gydsynio yng Nghymru

53. Argymhellodd gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog ym maes ynni adnewyddadwy y dylid cynnal "adolygiad o'r prosesau trwyddedu morol, cydsynio a phrosesau cynghori ategol i ddileu rhwystrau, gan ddefnyddio gwaith grwpiau presennol ." Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiad ar y mater hwn yn haf 2022.

54. Dywedodd Jess Hooper fod y broses gydsynio yng Nghymru yn cymryd cymaint o amser ac, mewn rhai achosion, ei bod mor feichus nes bod teimlad ymhlith datblygwyr nad yw Cymru ar agor i fusnes. Pwysleisiodd David Jones yr angen am gapasiti digonol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried a phrosesu ceisiadau am gydsyniadau, gan ei bod yn hollbwysig rhoi'r cydsyniad hwnnw o fewn 12 mis. Dywedodd y bydd hynny'n eu galluogi wedyn i wneud cais am gontract gwahaniaeth yn 2023, a fydd wedyn yn eu galluogi i adeiladu'r prosiect erbyn 2026. Pe na baent yn cael contract gwahaniaeth yn 2023, dywedodd y byddai'n rhaid aros dwy flynedd arall am gontract gwahaniaeth yn 2025, a byddai hynny'n golygu blynyddoedd o oedi yn y rhaglen.

55. Yn ôl David Jones, roedd teimlad bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn amharod i gymryd risg. Mae'r technolegau sydd o dan ystyriaeth yn aml yn newydd ac yn arloesol, a gallai'r dull rhagofalus a ddefnyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru greu rhwystrau. Lle nad oes tystiolaeth yn bodoli ar hyn o bryd, awgrymodd David Jones y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru edrych ar y profiad o ddatblygiadau mewn mannau eraill, fel rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig neu Ewrop. Dywedodd Jess Hooper ei bod yn credu bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddiwylliant sy'n tueddu i fod yn rhagofalus ac yn seiliedig ar ganfod problemau. Roedd hi'n cydnabod bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu heriau, ond dywedodd fod gan lefydd fel yr Alban yr un ddeddfwriaeth a'u bod wedi galluogi'r prosiectau hyn i fwrw yn eu blaenau ers dros 10 mlynedd. Er bod technolegau wedi'u defnyddio 15-20 o weithiau yr Alban, dim ond dwywaith mae hynny wedi digwydd yng Nghymru.

56. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

"Mae pobl yn aml yn credu y dylai ceisiadau trwyddedu morol ar gyfer datblygiadau mewn meysydd o flaenoriaeth polisi allu cael eu blaenoriaethu. Fodd bynnag, rhaid i CNC asesu pob cais yn gadarn trwy ddilyn y broses benderfynu statudol, a'r broses asesu a chynghori ategol, sydd, gyda'i gilydd, yn darparu mesurau diogelu pwysig ar gyfer yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch dynol, yn ogystal â diogelwch gweithdrefnol a chyfreithiol."

57. Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod cyflymder y penderfyniad yn dibynnu'n bennaf ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan y datblygwr ac awgrymodd y byddai cael mwy o gyngor cyn ymgeisio a thrafod â rhanddeiliaid eraill yn golygu bod modd cyflwyno ceisiadau cadarn am drwyddedau, gan helpu i gwtogi'r amserlen ar gyfer penderfynu ar y ceisiadau hynny.

58. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor ei fod yn edrych ar sut y gallai addasu'r gwaith prosesu er mwyn gwneud hynny mor rhwydd â phosibl i ddatblygwyr, a sicrhau nad yw'n gymhleth. Dywedodd ei fod hefyd yn ceisio creu'r amserlen fyrraf bosibl tra'n sicrhau ar yr un pryd bod lefel berthnasol o graffu amgylcheddol yn digwydd.

Ein barn ni

Mae'n amlwg o'n trafodaethau â chyfranwyr fod pryderon sylfaenol ynghylch y broses gydsynio ac ynghylch pa mor addas yw honno at y diben os mai'r nod yw ymateb i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy'r môr. Mae'n briodol bod gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog wedi rhoi sylw i'r materion hyn.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad sy'n deillio o'r gwaith dadansoddi manwl ar gyfer adolygu'r broses gydsynio o'i dechrau i'w diwedd. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector yn cydnabod y gellid symleiddio'r broses. Byddem yn ddiolchgar am esboniad o sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr adolygiad yn agored ac yn dryloyw a'i fod yn cynnwys rhanddeiliaid. Byddem yn croesawu diweddariad gan y Dirprwy Weinidog ar ôl i Lywodraeth Cymru gyflwyno'i hadroddiad yn yr haf.

Rydym hefyd yn croesawu ac yn cymeradwyo'r ymrwymiad sy'n deillio o'r gwaith dadansoddi manwl i adolygu'r adnoddau y mae eu hangen a'r opsiynau ar gyfer prosesau cydsynio a chynghori i gyd-fynd â'r twf mewn ynni adnewyddadwy. Yn benodol, rydym yn falch y bydd yr adnoddau ar gyfer y rhaglen OREP yn rhan o'r adolygiad hwn. Byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Weinidog ar ôl i Lywodraeth Cymru gyflwyno'i hadroddiad yn y gwanwyn.

Rydym yn nodi ymrwymïadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dirprwyo pwerau cynghori ar y môr o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael yr adnoddau priodol i ymdrin â'r cyfrifoldebau hyn.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd ei hadolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r broses gydsynio yn agored ac yn dryloyw, a dylai nodi sut y bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i gyfrannu.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amserlen, ar gyfer dirprwyo pwerau cynghori ar y môr o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i ysgwyddo'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn.

5. Casglu tystiolaeth a bylchau mewn data

59. Yn ôl asesiad yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR 2020) o ardal forol y glannau yng Nghymru, mae nifer o fylchau mewn tystiolaeth wrth edrych ar ddefnydd cymdeithasol, economaidd (gan gynnwys datblygu) ac amgylcheddol yr amgylchedd morol, ac mae'r bylchau hyn yn cyfyngu ar y gallu i sicrhau bod adnoddau naturiol y môr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

60. Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru, mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ei Rhaglen Tystiolaeth Forol ac Arfordirol ei hun, sy'n cynnwys rhestr flynyddol o flaenoriaethau ar gyfer casglu tystiolaeth. Mae'n darparu cylch monitro rheolaidd drwy ei Rhaglen Monitro Morol.

61. Fel y nodwyd yn y Bennod flaenorol, argymhellodd gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog ym maes ynni adnewyddadwy, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, y dylid cynnal adolygiad o'r broses gydsynio a'r dystiolaeth a'r cyngor sy'n cyd-fynd â hi.

62. Mae casglu data morol yn gymhleth ac mae angen iddo ddigwydd dros nifer o flynyddoedd. Mae diffyg rhaglen ariannu aml-flyyddyn yn gwneud y gwaith hwn yn anodd. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y cyllid sydd ar gael ar gyfer monitro morol yn llawer is na'r hyn sydd ei angen.

63. Cydnabu Cyfoeth Naturiol Cymru ei bod yn "sylfaenol bwysig ein bod yn deall cyflwr ein hamgylchedd morol ac arfordirol os ydym am wneud penderfyniadau cadarn ynghylch rheoli." Rhybuddiodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod datblygwyr yn aml yn dibynnu ar ddata sylfaenol yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru neu gyrff eraill wedi'u casglu, ond bod y data hynny bellach yn hen iawn, a dyna'r dystiolaeth orau sydd ar gael.

64. Roedd rhanddeiliaid amgylcheddol yn cydnabod bod bylchau sylweddol yn y dystiolaeth. Byddai angen amser i lenwi'r bylchau hyn yn y ffordd draddodiadol, sef yn yr un ffordd ag y byddai rhywun yn ei wneud ar y tir – ond nid yw'r amser hwnnw ar gael. Cyfeiriodd Clare Trotman at adroddiad tystiolaeth forol Cymru, ac awgrymodd y byddai'n fan cychwyn da ar gyfer ceisio llenwi rhai o'r bylchau tystiolaeth hyn.

65. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a chyrrff cadwraeth natur eraill yn y DU i ystyried yr opsiynau ar gyfer ariannu rhaglen ehangach. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor fod yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio yn gofyn am bum gwaith yn fwy o gyllid na'r rhaglen bresennol, a'i fod wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a oedd yn gefnogol yn hyn o beth. Byddai hyn yn arwain at wneud y

rhaglen fonitro wyth gwaith yn fwy mewn maint. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal yn awr gyda Llywodraeth Cymru ynghylch sut y byddai modd bwrw ymlaen â'r cais.

66. Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at yr angen i ddeall yn well sut mae'r gwahanol fathau hyn o ddyfeisiau ynni adnewyddadwy yn rhyngweithio â gwahanol gynefinoedd a rhywogaethau, ac yn enwedig rhywogaethau symudol. Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod cyfleoedd da i weithio ar draws y DU, er enghraifft gydag Ystad y Goron, ar raglenni casglu tystiolaeth. Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod angen deall yn well yr amgylchedd unigryw yng Nghymru.

Rhannu data gan ddatblygwyr

67. Dywedodd Emily Williams fod datblygwyr yn casglu llawer iawn o ddata morol pan fyddant yn datblygu prosiectau. Dywedodd fod llawer o'r data hynny'n aml yn cael eu disgrifio fel rhai 'sensitif yn fasnachol'. Awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i sut y gallai annog datblygwyr i rannu mwy o'r data y maent yn eu casglu fel y gellid eu defnyddio yn y maes cynllunio morol. Dywedodd Claire Stephenson y gallai mwy o ddata gael eu cyflwyno i'r cyhoedd drwy broses cynllun datblygu, gan ofyn i ddatblygwyr roi eu tystiolaeth a'u rhesymeg dros ddatblygu, a rhyddhau hynny ar gyfer gwaith craffu. Gallai hwn fod yn gam dros dro addas wrth chwilio am atebion yn y tymor hwy.

68. Awgrymodd Emily Williams fod angen casglu tystiolaeth ar draws sectorau. Er enghraifft, gallai'r sector pysgodfeydd gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth drwy ddefnyddio systemau monitro cychod.

69. Mewn ymateb i gwestiwn am botensial cydweithio wrth gasglu tystiolaeth a data, esboniodd David Jones fod costau sylweddol ynghlwm wrth gasglu data. Ar gyfer prosiect Erebus, a fyddai'n gorchuddio tua 0.02% o ddyfroedd cynllunio morol Cymru, dywedodd y bydd ei gwmni wedi gwario tua £5 miliwn erbyn iddo gyflwyno'i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

70. Awgrymwyd y gallai fod rôl i Lywodraeth Cymru wrth geisio annog pobl i rannu gwybodaeth nad yw'n gyfrinachol. Dywedodd Jess Hooper:

"There's obviously going to be some sensitivity around the data that sits within each individual company as well, so there's definitely a role to be taken to pull all of that together, but it has to be a real, strategic leadership role, and not something that I think we can champion—. We can champion it as a sector, but we can't take that leadership."

71. Dywedodd Jess Hooper fod gwaith da yn cael ei wneud drwy'r grŵp cyngori ar wyddoniaeth a thystiolaeth, a oedd yn gweithio drwy Lywodraeth Cymru gyda chyd-fwrdd y diwydiant cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y môr (ORJIP). Dywedodd fod y grŵp hwn yn edrych ar y data sydd ar gael ac yn ceisio canfod sut yn union y gellid defnyddio'r data hwnnw orau, a ble mae'r bylchau.

Ein barn ni

Nid yw cynlluniau morol, strategaethau a phrosesau cynllunio gofodol ond cystal â'r data sy'n sail iddynt. Roedd rhanddeiliaid yn glir bod bylchau sylweddol yn y sylfaen dystiolaeth. Fel y dywedasom yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, mae diffyg sylfaen dystiolaeth gadarn i gyd-fynd â phenderfyniadau datblygu yn golygu bod risgiau anorfod ynghlwm wrth gynyddu maint datblygiadau.

Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y sylfaen dystiolaeth yn wendid. Ymrwymodd gwaith dadansoddi manwl y Dirprwy Weinidog i ganfod y prif fylchau mewn tystiolaeth forol a daearol, ynghyd â ffyrdd o lenwi'r bylchau hyn. Bydd gennym ddiddordeb mewn monitro cynnydd y gwaith hwn. Yn benodol, credwn ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn dangos sut y caiff y gwaith ei ariannu.

Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau cyfrinachedd masnachol, ond credwn ei bod yn hanfodol edrych ar sut y gall datblygwyr gyfrannu mwy at y sylfaen dystiolaeth.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn cyflawni'r ymrwymiad yn y gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy i ganfod y prif fylchau mewn tystiolaeth forol a daearol ynghyd â ffyrdd o lenwi'r bylchau hyn. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut y caiff gwaith o'r fath ei ariannu.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y gall datblygwyr gyfrannu mwy at y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i gynllunio morol. Dylai nodi sut y bydd yn dileu rhwystrau i sicrhau y gellir rhannu data tra'n parchu cyfrinachedd masnachol.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru 2019-22, gan gynnwys unrhyw asesiad sydd wedi'i gynnal o'i heffeithiolrwydd, ac egluro a fydd y strategaeth yn cael ei hadolygu neu ei diwygio yng ngoleuni'r ymrwymiad yn y gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy.

6. Ardaloedd Morol Gwarchodedig

72. Ardaloedd Morol Gwarchodedig yw'r term a ddefnyddir ar gyfer safleoedd cadwraeth natur sy'n cael eu gwarchod yn yr amgylchedd morol. Maent wedi'u diffinio'n ddaearyddol ac maent yn cael eu cydnabod yn ffurfiol drwy ddulliau cyfreithiol neu ddulliau effeithiol eraill, fel dulliau gwirfoddol. Gellir dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys cadwraeth forol a rheoli pysgodfeydd.

73. Mae cyfanswm o 139 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru sy'n cwmpasu 69 y cant o ddyfroedd glannau Cymru (y marc dŵr uchel cymedrig i derfyn y moroedd tiriogaethol ar ôl 12 milltir fôr) a 50 y cant o holl ddyfroedd Cymru. Mae pob Ardal Forol Warchodedig yng Nghymru yn safle aml-ddefnydd. Fodd bynnag, gall rhai gweithgareddau gael eu rheoli neu eu cyfyngu i leihau'r tebygolrwydd o effeithio'n andwyol ar y bywyd gwyllt a'r cynefinoedd sydd wedi arwain at ddynodi'r safle.

Y Llanw'n troi?

74. Ym mis Awst 2017, cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Pumed Senedd ei adroddiad, 'Y Llanw'n Troi: Adroddiad yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig'. Gwnaed gwaith dilynol ym mis Mehefin 2019.

75. Rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o dan argymhellion y Pwyllgor er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor wrth iddo ystyried y maes polisi hwn. Dywedodd rhanddeiliaid nad oedd nifer o argymhellion y Pwyllgor wedi cael sylw, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chanfod a dynodi Parthau Cadwraeth Morol.

Asesu cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig

76. Yn 2018, Iluniodd Cyfoeth Naturiol Cymru asesiadau o gyflwr dangosol nodweddion yn Safleoedd Morol Ewropeaidd Cymru. Roedd yr asesiadau hyn yn ystyried statws cadwraeth y nodweddion (rhywogaethau a chynefinoedd), a chanfuwyd bod 45% o'r holl nodweddion dynodedig mewn cyflwr ffafriol, tra bo 45% mewn cyflwr anffafriol.

77. Ers yr asesiadau dangosol, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod wedi defnyddio Cyllid y Môr a Physgodfeydd Ewropeaidd i ddatblygu prosiect gyda'r nod o greu proses fwy cynaliadwy ar gyfer cynnal asesiadau cylchol o gyflwr safleoedd yn y dyfodol. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi canfod dangosyddion a allai fod yn fuddiol i ddangos cyflwr y nodweddion, ac yn ddelfrydol, byddai tystiolaeth ar gael yn hyn o beth. Roedd Cyfoeth Naturiol

Cymru bellach yn defnyddio'r dangosyddion yn fewnol mewn asesiadau peilot o gyflwr nodweddion. Pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon bod y broses yn un gadarn, bydd yn chwilio am adnoddau i gynnal adolygiad llawn a chyfres lawn o asesiadau o gyflwr safleoedd ar gyfer ei holl nodweddion a'i holl safleoedd gan ddefnyddio'r broses newydd hon. Byddai'r wybodaeth hon yn llywio diwygiadau i becynnau cyngor cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ei Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'i Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Byddai hyn yn diweddarau'r amcanion cadwraeth, gan fod yn gliriach a oes angen cynnal cyflwr neu adfer cyflwr ac ati, a byddai'n golygu rhoi cyngor manylach, mwy rhagnodol, ym maes cadwraeth.

78. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn bwriadu defnyddio'r rhaglen ariannu newydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei datblygu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn edrych ar gyflwr yr holl safleoedd gwarchodedig ar draws tir a môr, sef y rhaglen rhwydweithiau natur. Heb adnoddau ychwanegol, cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'r asesiadau o gyflwr yn cymryd llawer mwy o amser i'w cwblhau.

Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru

79. Yn ei diweddariad i'r Pwyllgor am weithredu argymhellion Y Llanw'n Troi, dywedodd y Gweinidog:

"Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CNC i ddatblygu prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru. Yn 2016, rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal 516 o asesiadau o offer pysgota. Mae 70 wedi dod i law CNC a disgwylir y bydd 39 o asesiadau o offer llusg ar waelod y môr yn cyrraedd ym mis Mawrth 2022."

80. Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud bod "prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth a byddaf yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus unwaith y bydd yr holl asesiadau o offer llusg a chynigion ar gyfer mesurau rheoli wedi'u cwblhau".

81. Mewn llythyr at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd ei bod yn disgwyl yr asesiadau 'blaenoriaeth ganolig' o offer llusg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Ar ôl cwblhau'r asesiadau, esboniodd y byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn ymgynghori ar unrhyw gynigion y byddai eu hangen i roi sylw i'r asesiadau blaenoriaeth 'uchel' a blaenoriaeth 'ganolig'.

82. Yn ôl adroddiad yn y Guardian ym mis Hydref 2020, roedd treillio gwely'r môr yn digwydd yn 97% o'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar y môr yn y DU yn 2019. Cynhaliwyd y dadansoddiad hwn gan gorff anllywodraethol amgylcheddol Oceana, gan ddefnyddio data o'r platfform tracio cychod Global Fishing Watch. Canfu dadansoddiad pellach gan Oceana o ddata

2020 fod yr un nifer o Ardaloedd Morol Gwarchodedig y DU yn cael eu treillio, a bod nifer yr oriau a dreuliwyd yn pysgota ag offer llusg ar wely'r môr yn yr ardaloedd hyn wedi cynyddu 10% ers 2019.

83. Wrth gyfeirio at ddadansoddiad Oceana, awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd yn glir faint o'r cynnydd oedd wedi digwydd yn nyfroedd Cymru. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd y penawdau ystadegol hyn yn berthnasol i'w ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru. O ran ei ddealltwriaeth anecdotaidd, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd nad oedd llawer o bysgota ag offer llusg ar wely'r môr yn digwydd yn fflyd Cymru. Serch hynny, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod nad yw hynny'n golygu na allai ddigwydd drwy fflydiau sy'n cyrraedd o fannau eraill.

84. Eglurodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai system arfaethedig Llywodraeth Cymru i fonitro cychod ar y glannau yn helpu i roi gwell dealltwriaeth o ba offer sy'n cael ei ddefnyddio ymhle. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod angen gwybodaeth cyn y gellid llunio casgliadau clir ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn nyfroedd Cymru. Aeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei flaen i egluro bod hwn yn gwestiwn i'w ofyn hefyd i'r Llywodraeth, o ran pa mor rhagofalus neu beidio y mae'n dymuno bod wrth gyflwyno camau i reoli pysgodfeydd.

85. Ar 8 Hydref 2021, derbyniodd y Pwyllgor lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â deiseb yr oedd wedi'i hystyried o'r enw "Mae treillio o'r gwaelod i'r môr yn lladd ein bywyd gwyllt morol... Rhowch y gorau i fwlio ein moroedd!".

Ardaloedd Morol Gwarchodedig iawn

86. Dywedodd Clare Trotman fod rhannau eraill o'r DU yn dechrau ystyried cyflwyno Ardaloedd Morol Gwarchodedig iawn. Roedd hi wedi'i siomi nad oedd y Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion y pwyllgor a'n rhagflaenodd ar y mater hwn. Roedd yn cydnabod bod ymgynghoriad cynharach gan Lywodraeth Cymru yn 2012 wedi bod yn fethiant, a dywedodd ei bod yn credu bod llawer o wersi i'w dysgu o hynny, o ran sut i ymwneud â rhanddeiliaid ac ennyn cefnogaeth cymunedau arfordirol nes gyrraedd pwynt lle bydd pobl yn gyfforddus gyda mwy o warchodaeth ac yn deall pam fod angen i hynny ddigwydd.

87. Honnodd Sue Burton fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2012 ar Barthau Cadwraeth Morol gwarchodedig iawn yn druenus o annigonol. Dywedodd y byddai'n drueni mawr pe bai'r drafodaeth am Barthau Cadwraeth Morol gwarchodedig iawn yn dod i ben oherwydd y broses honno. Dywedodd fod dadleuon o hyd o blaid manteision Parthau Cadwraeth Morol gwarchodedig iawn. Ychwanegodd y byddai'n bosibl creu parthau o fewn yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol, gan gael ardaloedd bychan iawn ac ardaloedd

wedi'u targedu'n fanwl lle na cheir gwneud rhai gweithgareddau penodol. Dywedodd fod hynny'n ystyriaeth wirioneddol ar gyfer holl rwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

88. Ateggodd Dr Richard Unsworth y sylwadau hyn, gan ddweud bod ymgynghoriad 2012 wedi bod yn rhy fewnblyg. Dywedodd nad oedd yr ymgynghoriad wedi edrych ar brofiad parciau morol llwyddiannus ac ardaloedd morol gwarchodedig yn unrhyw le arall yn y byd. Dywedodd y ceir parciau morol sy'n methu mewn sawl rhan o'r byd, ond bod parciau morol llwyddiannus i'w cael mewn sawl rhan o'r byd hefyd, lle ceir parthau niferus o'u mewn, a llawer o reolau gwahanol. Maent yn cael eu sefydlu gan ddilyn proses raddol, gan eu creu i ddechrau, cyn dychwelyd i weithio arnynt a'u gwella. Ychwanegodd nad mater o ailddyfeisio'r olwyn yw hyn. Dywedodd y byddai modd defnyddio syniadau a chysyniadau ac arbenigedd sy'n bodoli'n barod i ddatblygu'r parthau cadwraeth morol, fel eu bod yn ddefnyddiol i bobl leol, yn ogystal ag i fioamrywiaeth.

Ein barn ni

Yn ei adroddiad "Y Llanw'n Troi?" galwodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno strategaeth ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Ni chlywsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr amgylchiadau wedi gwella ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw. Clywsom gan nifer o randdeiliaid eu bod yn parhau i gael eu siomi gan ddiffyg gweithredu Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Credwn fod tymor newydd y Senedd, gyda Gweinidog newydd yn gyfrifol am bolisiau morol, yn gyfle delfrydol i ailedrych ar yr argymhelliad hwn. Byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn amlinellu ei safbwynt ar y mater hwn.

Fel y dywedasom yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, rydym yn siomedig â'r diffyg cynnydd parhaus o ran dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Pharthau Cadwraeth Morol a byddem yn ddiolchgar am esboniad gan y Gweinidog o'r rhesymau dros hyn.

Bu pryder parhaus ynghylch yr asesiadau dangosol o gyflwr safleoedd a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ynghylch ansawdd y data sy'n deillio o'r gwaith hwnnw. Roeddem yn falch o glywed bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu proses fwy cadarn ar gyfer asesu cyflwr safleoedd. Rydym yn nodi'r sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru bod angen cyllid i gyflwyno'r dull hwn o weithredu. Byddem yn croesawu eglurhad pellach ynghylch faint o gyllid y mae ei angen er mwyn i'r gwaith hwn fynd rhagddo ac a yw'r cyllid hwnnw wedi'i ymrwymo.

Cawsom ein siomi gan y diffyg eglurder ynghylch mynychder treillio ar wely'r môr a charthu yn nyfroedd Cymru. Er ein bod yn nodi bod gwaith wedi'i wneud ar effaith treillio ar Ardaloedd

Morol Gwarchodedig, rydym yn awyddus i ddeall natur a diben yr ymgynghoriad cyhoeddus ar offer pysgota llusg.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Dylai'r strategaeth hon ganolbwyntio ar yr angen i ddilyn dulliau lleol o weithio a dulliau o weithio sy'n edrych ar y rhwydwaith cyfan. Dylai'r strategaeth hefyd geisio cyflawni amcanion cadwraeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig unigol, lle bydd hynny'n berthnasol.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r diffyg cynnydd o ran dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Pharthau Cadwraeth Morol a rhoi amserlen ar gyfer eu dynodi.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd y dull newydd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i ddatblygu ar gyfer cynnal asesiadau o gyflwr safleoedd yn cael ei ariannu.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r trafodaethau diweddaraf y mae wedi'u cynnal ynghylch gweithredu rhaglenni monitro morol yn seiliedig ar risg drwy'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig 2020-21.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei chynlluniau diweddaraf ar gyfer dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig lawn.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu diben ac amserlen yr ymgynghoriad cyhoeddus ar garthu a threillio gwely'r môr yn Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru.

7. Carbon glas

89. Mae 'carbon glas' yn cyfeirio at y carbon sy'n cael ei ddal a'i storio mewn ecosystemau arfordirol ac ecosystemau morol sydd â llystyfiant, ac yn benodol mewn cynefinoedd morwellt, morfa heli, mangrof a gwymon. Mae'r llystyfiant mewn cynefinoedd carbon glas yn cael gwared ar garbon deuocsid (CO₂) o'r atmosffer ac o'r dŵr môr o'i amgylch (yn ystod ffotosynthesis), cyn storio carbon mewn planhigion ac yn y gwaddodion oddi tanynt. Mae moroedd Cymru yn cynnwys cynefinoedd carbon glas morwellt, morfa heli a gwymon, sy'n gorchuddio dros 99km² o rywdaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru.

90. Mewn adroddiad ym mis Gorffennaf 2020 yn amcangyfrif potensial dalfa garbon amgylchedd morol Cymru, a baratowyd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, canfuwyd bod llawer o garbon eisoes wedi'i storio mewn gwaddodion morol, gydag o leiaf 113 miliwn tonnell (Mt) yn y 10 cm uchaf. Yn ôl yr adroddiad, mae hyn yn cynrychioli bron i 170% o'r carbon sydd wedi'i ddal yng nghoedwigoedd Cymru.

91. Dywed Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol fod gallu'r môr i storio carbon yn 'hollbwysig' er mwyn cyrraedd y targed o fod mewn sefyllfa sero net erbyn 2050. Roeddent yn argymhell y dylid paratoi Cynllun Adfer Carbon Glas Cenedlaethol yng Nghymru, a hwnnw wedi'i gynllunio i gynnal a gwella ein cynefinoedd carbon glas morol amhrisiadwy.

92. Wrth roi diweddariad i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

"Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gydag CNC, y gweinyddiaethau eraill a'r gymuned wyddonol i ddeall y problemau a'r cyfleoedd yn well, a byddwn yn cydweithio gyda'r bwriad o sefydlu Partneriaeth Tystiolaeth Carbon Glas y DU ddechrau'r flwyddyn nesaf, i fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn. Yng Nghymru, byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno cynllun tystiolaeth carbon glas i lywio partneriaeth y DU ar y naill law ac i bennu anghenion penodol Cymru am dystiolaeth ar y llall. Mae trafodaethau wedi dechrau ynghylch ffurfio gweithgor i ddatblygu'r cynllun tystiolaeth hwn."

93. Wrth ymateb i ddeiseb a gyflwynwyd yn ddiweddar, dywedodd y Gweinidog na ellir dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar hyn o bryd ar sail adnoddau fel potensial carbon. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i "sefydlu cynllun wedi'i dargedu i hyrwyddo gwaith adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli".

Project Seagrass

94. Mae hyd at 92% o forwellt y DU wedi diflannu yn y ganrif ddiwethaf. Llygredd, datblygu arfordirol, a difrod drwy lafnau gwrthio cychod a chadwyni angorau sydd wedi achosi'r dirywiad hwn. Mae Project Seagrass, sef gwaith ar y cyd gan Sky Ocean Rescue, WWF a Phrifysgol Abertawe yn cynnal prosiect mwyaf y DU i adfer morwellt. Y nod yw adfer 20,000m² o forwellt drwy blannu dros 750,000 o hadau ym Mae Dale yn Sir Benfro. Mae Project Seagrass bellach yn edrych ar safleoedd posibl i adfer morwellt o amgylch Pen Llŷn.

95. Mewn ymateb i gwestiwn am y potensial i ddefnyddio safleoedd ffermydd gwynt i adfer cynefinoedd, dywedodd Dr Richard Unsworth ei fod yn credu bod achos dros sicrhau bod gwahanol fathau o weithgareddau yn cyd-fynd â'i gilydd, gan gynnwys dyframaethu gwymon a thyfu gwymon i'w fwyta, ond hefyd am resymau eraill sy'n ymwneud ag echdynnu cyfansoddion a charbon.

96. Dywedodd Dr Richard Unsworth fod y prosiect yn Dale yn beilot oedd wedi'i greu i ysgogi mwy o weithgarwch mewn meysydd eraill. Dywedodd fod y peilot wedi arwain at ymwneud â phrosiectau eraill, fel prosiect sy'n cael ei arwain gan y Ganolfan Eigioneg Genedlaethol yn Southampton. Dywedodd fod Project Seagrass hefyd wedi bod yn ffodus i greu cysylltiadau â Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddenu gwariant cyfalaf gwych ar gyfer y prosiect.

97. Cadarnhaodd Dr Unsworth eu bod yn rhan o gonsortiwm sy'n cael ei arwain gan WWF a'u bod yn ceisio bwrw ymlaen â phrosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ym Mhen Llŷn ac Ynys Môn. Dywedodd eu bod ar hyn o bryd yn ymchwilio'n fiolegol i ble y gallai'r gwaith adfer morwellt ddigwydd er mwyn dysgu'r gwersi o Dale. Y nod yw gweithio gyda chymunedau i ganfod ble fyddai'n fwyaf addas adfer y morwellt—ble y gellid ei blannu heb ddigio cymunedau arfordirol, gan sicrhau bod pobl yn ei weld fel prosiect buddiol i bawb. Dywedodd fod hwn yn gam cynnar yn prosiect, ond eu bod yn gobeithio ehangu dros y blynyddoedd nesaf. Dywedodd eu bod wedi gwneud llawer o waith modelu cychwynnol sy'n dangos i ddechrau ble mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer morwellt; y cam nesaf fydd cynnal arbrofion ac ymchwiliadau yn y safleoedd hynny i bennu'r manylion.

98. Dywedodd Clare Trotman wrth y Pwyllgor ei bod yn credu bod gan ardaloedd morol gwarchodedig gyfraniad o bwys i'w wneud wrth gefnogi'r gwaith o adfer a rheoli carbon glas. Dywedodd ei bod yn gobeithio y byddai parthau cadwraeth morol newydd yn cael eu canfod a'u dynodi'n fuan.

99. Dywedodd Dr Richard Unsworth:

"the reality is that we have levels of protection around our coast that are not policed and not regulated, have limited funding to them, and have virtually no management plans existing for them. We need to protect things properly. There's no point in creating marine parks that are just what we refer to as 'paper parks'—they exist on nothing but on paper. There are plenty of examples of them around the UK."

Cynllun adfer carbon glas

100. Eglurodd Clare Trotman fod y cynnig ar gyfer creu cynllun adfer carbon glas wedi'i seilio ar waith sydd eisoes wedi'i wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac academyddion i edrych ar sefyllfa carbon glas yng Nghymru. Gan gydnabod arwyddocâd carbon glas, dywedodd mai diben y cynllun fyddai edrych ar ffyrdd o wreiddio gweithgareddau ymarferol ym mholisiau presennol Cymru. Dywedodd mai nad ailddyfeisio'r olwyn fyddai'r nod, gan fod llawer o bethau da eisoes yn digwydd, ond yn hytrach ceisio dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio polisiau presennol i symud y sgwrs rywfaint yn ei blaen. Er enghraifft, dywedodd y gallai'r cynllun edrych ar fapio storfeydd carbon glas yng Nghymru, cyn edrych ar sut y gellid dehongli beth sy'n ddatblygiadau addas neu'n ddatblygiadau anaddas ar sail hynny.

101. Dywedodd Clare Trotman ei bod yn falch bod y Gweinidog wedi dweud ei bod yn ystyried creu cynllun tystiolaeth ynghyd â gweithgor posibl yng Nghymru i edrych ar garbon glas. Ychwanegodd mai ei hunig argymhelliad yn hynny o beth fyddai sicrhau bod y grŵp hwnnw mor gynhyrchiol â phosibl. Dywedodd y dylai gael ei gyd-reoli ac y dylai ddilyn dulliau o weithio sydd wedi'u seilio ar lesiant, gan roi pwyslais ar gynhwysiant. Dywedodd hefyd y dylid sicrhau bod y rhanddeiliaid cywir yn rhan ohono. Ychwanegodd Clare Trotman ei bod yn croesawu'r cynnig i greu gweithgor, ond teimlai o hyd bod rhinwedd mewn ystyried a allai fod rôl i fforwm carbon glas neu beidio. Dywedodd y byddai'n llwyr ddisgwyl gweld ystod eang o randdeiliaid ar y grŵp hwnnw, fel academyddion, cyrff cadwraeth natur statudol, y Llywodraeth, a rhanddeiliaid ehangach sy'n awyddus i gefnogi carbon glas.

102. Dywedodd Dr Richard Unsworth y gallai carbon glas fod yn gyfle i ddenu cyllid i brosiectau a fyddai ag amcanion ehangach o ran cadwraeth ac adfer. Roedd Sue Burton a Sean Clement hefyd yn cydnabod hyn. Fodd bynnag, rhybuddiodd Sue Burton na ddylai'r gallu i ddenu cyllid y mae dirfawr alw amdano arwain at broses gydsynio lai cadarn.

103. Wrth gyfeirio at Ystad y Goron, dywedodd Dr Richard Unsworth ei fod yn sefydliad arwyddocaol iawn, a bod angen iddo wneud mwy o ran carbon glas a chadwraeth forol – yng nghyd-destun ei gylch gwaith i wella gwerth yr ystad – yn ogystal ag o ran y gwerth sy'n cael ei ddatblygu gan y fioamrywiaeth a'r cynefinoedd sy'n rhan o'r ystad. Dywedodd fod angen i

Ystad y Goron gymryd y gwaith hwnnw o ddifrif, gan fod yn rhan o'r drafodaeth a gwneud cyfraniad o bwys yn hyn o beth.

Adborth ar waith ymgysylltu diweddar â rhanddeiliaid

104. Croesawodd y cyfranwyr gyhoeddiad y Gweinidog am y posibilrwydd o greu grŵp cynghori ar garbon glas. Fodd bynnag, dywedodd Clare Trotman fod llawer o'r pryderon yn dal i fodoli ynghylch y grwpiau niferus a'r amrywiad yn natur y gwaith ymgysylltu. Dywedodd Sue Burton mai'r broblem bosibl gyda chryn dipyn o'r grwpiau yw eu bod mor strategol nes bod y bobl hynny sy'n teimlo bod eu diddordebau neu eu perthnasedd yn fwy rhanbarthol yn teimlo na allant gyfrannu. Dywedodd fod enghreifftiau o grwpiau rhanbarthol lle'r oedd gwaith ymgysylltu wedi gweithio'n dda. Ychwanegodd fod rhanddeiliaid yn ei chael hi'n anodd ymrwymo'r amser neu'r adnoddau i fynychu'r grwpiau niferus sy'n bodoli.

Ein barn ni

Gallai'r modd mae cynefinoedd fel morwellt yn dal ac yn storio carbon gael effaith sylweddol ar flaenoriaethau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Credwn fod gan y maes polisi hwn lawer o botensial ac y dylid edrych i mewn i'r mater ymhellach. Rydym yn falch bod prosiectau peilot wedi'u cynnal yn nyfroedd Cymru a bod mwy yn yr arfaeth oddi ar Ben Llŷn ac Ynys Môn.

Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog am yr angen i ddeall y problemau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â charbon glas, ac rydym yn croesawu'r dull cydweithredol y mae gweinyddiaethau'r DU yn ei fabwysiadu drwy sefydlu Partneriaeth Tystiolaeth Carbon Glas y DU. Rydym hefyd yn croesawu awgrym y Gweinidog ei bod yn ystyried sefydlu gweithgor yng Nghymru i edrych ar garbon glas. Fodd bynnag, byddem yn pwysleisio wrth y Gweinidog bwysigrwydd gosod diben clir i'r grŵp a sicrhau bod yr aelodaeth yn iawn.

Credwn y byddai'n fuddiol edrych ymhellach ar yr awgrym a gyflwynwyd gan rhanddeiliaid ar gyfer creu Cynllun Adfer Carbon Glas Cenedlaethol, a fyddai'n dangos sut y gellid cynnal a gwella cynefinoedd carbon glas yng Nghymru. Byddem yn ddiolchgar o glywed barn y Gweinidog ar y mater hwn.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y gall gefnogi rhagor o brosiectau i ddal a storio carbon glas yn nyfroedd Cymru.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Partneriaeth Tystiolaeth Carbon Glas y DU. Dylai hefyd ddarparu rhagor o wybodaeth am gynlluniau ar gyfer creu gweithgor yn y maes carbon glas yng Nghymru.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei safbwynt ar ddatblygu Cynllun Adfer Carbon Glas Cenedlaethol i Gymru. Os yw'n credu y gellid gwneud cynnydd yn y maes polisi hwn mewn ffordd well, dylai nodi beth yw'r ffordd honno.

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
09 Rhagfyr 2021	Rhian Jardine, Pennaeth Cynllunio Datblygu a Gwasanaethau Morol, Cyfoeth Naturiol Cymru
	Mary Lewis, Rheolwr Mannau Cynaliadwy Tir a Mor, Cyfoeth Naturiol Cymru
	Dr Jasmine Sharp, Cyngorydd Arbenigol Arweinniol, Rheoleiddio Morol, Cyfoeth Naturiol Cymru
	Jess Hooper, Rheolwr Rhaglen, Ynni Morol Cymru
	David Jones, Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, Blue Gem Wind
	Claire Stephenson, Uwch-gynllunydd Cadwraeth, RSPB Cymru
	Clare Trotman, Pennaeth Cadwraeth Cymru (Dros Dro), Cymdeithas Cadwraeth Forol
	Emily Williams, Cyd-gadeirydd, Gweithgor Morol, Cyswllt Amgylchedd Cymru
	Sue Burton, Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro
	Sean Clement, Arbenigwr Adfer Moroedd, WWF Cymru
	Clare Trotman, Pennaeth Cadwraeth Cymru (Dros Dro), Cymdeithas Cadwraeth Forol
	Dr Richard Unsworth, Cyfarwyddwr Project Seagrass ac Athro Cyswllt mewn Bioleg Forol, Prifysgol Abertawe

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.

Cyfeirnod	Sefydliad
ME01	<u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u>
ME02	<u>Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro</u>
ME03	<u>Dr Richard Unsworth, Athro Cyswllt mewn Bioleg Forol - Prifysgol Abertawe, a Chyfarwyddwr - Project Seagrass</u>
PR82	<u>Ynni Morol Cymru</u>
PR19	<u>Blue Gem Wind</u>
PR80	<u>RSPB Cymru</u>
PR81	<u>Cymdeithas Cadwraeth Forol</u>
PR77	<u>Cyswllt Amgylchedd Cymru</u>
PR48	<u>WWF Cymru</u>